

**Mark Drakeford AC**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**



2 Rhagfyr 2014

Annwyl Mark,

### **Proses gwyno'r GIG yng Nghymru**

Yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd, trafododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol eich ymateb i'w waith ar broses gwyno'r GIG a'ch datganiad ysgrifenedig dyddiedig 24 Tachwedd. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch ichi am eich ymateb ac am y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Cynulliad yn eich datganiad ysgrifenedig.

Yn eich datganiad, rydych yn nodi bod y camau gweithredu i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad yn perthyn i dri grŵp, sef camau y gellir eu cymryd ar unwaith, camau y gellir eu cymryd yn y tymor canolig, a chamau y bydd angen eu hystyried dros y tymor hwy os na chyflawnir y gwelliannau a roddir ar waith yn y cyfamser. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr amserlen a ragwelir gennych ar gyfer cyflawni'r ddau gam cyntaf, gan gyfeirio'n benodol at:

- y rhaglenni pilot iWantGreatCare sydd ar waith yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr;
- gwaith y Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol ar lefel genedlaethol ar:
  - ddatblygu set ddata genedlaethol ar gyfer cwynion;
  - adolygu canllawiau a deunydd cyfathrebu Gweithio i Wella;
  - datblygu model ar gyfer dysgu gwersi o gwynion, a rhannu'r gwersi hynny;
  - sicrhau y caiff anghenion cleifion eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn drwy grŵp cyfeirio ymgysylltu â'r cyhoedd; a
- rôl y Cynghorau Iechyd Cymunedol yn y broses gwynion, yn enwedig o ran eiriolaeth a rhannu gwybodaeth â byrddau iechyd ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

At hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu awgrym cychwynnol, os yw'n bosibl, o'r rheoliadau presennol y gallai fod angen eu diwygio, ac ym mha feysydd y gallai fod angen deddfwriaeth newydd, er mwyn sicrhau'r gwelliannau y nodwyd bod eu hangen i broses gwyno'r GIG yng Nghymru.

Bae Caerdydd  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6354


E-bost / Email: [Senedd.Iechyd@Cynulliad.Cymru](mailto:Senedd.Iechyd@Cynulliad.Cymru)  
[SeneddHealth@Assembly.Wales](mailto:SeneddHealth@Assembly.Wales)

Twitter / Trydar: @iechydSenedd / @seneddhealth

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb i'r materion a fynegwyd uchod erbyn 5 Ionawr 2015.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "David F. Rees." in a cursive style.

**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol